

# **Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

## **Papur Gwyn Bil y Gymraeg**

**Gorffennaf 2017**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Papur Gwyn Bil y Gymraeg

<b>Teitl:</b> Papur Gwyn Bil y Gymraeg	<b>Rhif Cyfeirnod yr Asesiad</b> (i'w lenwi gan Uned y Gymraeg):				
<b>Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:</b>					
<b>Dyddiad:</b>	<b>07/07/2017</b>				
<b>Arweinydd polisi:</b>					
<b>Manylion cyswllt:</b>	<a href="mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cy">UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cy</a> <a href="http://mru">mru</a>				
<b>Math o Raglen/Prosiect</b>					
<input type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen				
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad				
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau				
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau				
<input type="checkbox"/> Seilwaith					
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf					
<input type="checkbox"/> TGCh					
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
<b>Costau: Beth yw'r gost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect?</b> Os yn llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
Llai na £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Mwy na £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
<b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?</b>					
Mae natur Bil arfaethedig y Gymraeg yn golygu y bydd yr holl gostau sydd ynghlwm â'r ddeddfwriaeth hon yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg.					
<b>Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?</b>					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<b>Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:</b>					
Bydd y Papur Gwyn hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 9 Awst a 31 Hydref. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, bydd yr holl ymatebion yn cael eu crynhoi mewn adroddiad a byddwn yn penderfynu ar ein camau nesaf, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth y mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu ei chynnig..					
<b>CAM 1: CYNLLUNIO</b>					
<b>Beth yw nodau ac amcanion y polisi?</b> <b>Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?</b>					

Nodau cyffredinol ein cynigion yw:

- sicrhau statws y Gymraeg yng Nghymru;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- yng nghyd-destun gwasanaethau, sicrhau:
  - cysondeb ac ansawdd yn narpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg;
  - atebolrwydd cyrff o ran darparu'r gwasanaethau hynny; ac
  - unioni'r sefyllfa, os na fodlonir y Safonau.

Nodwyd ein gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg (*Cymraeg 2050*). Fel rhan o hyn, ymrwymwyd i adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith.

I wireddu'r ymrwymiad hwn, a chan fanteisio ar bum mlynedd o brofiad ers i'r Mesur ddod i rym, rydym wedi llunio cynigion yn ein Papur Gwyn sydd wedi'u seilio ar yr amcanion polisi a ganlyn:

- Taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a rheoleiddio cydymffurfiaeth â dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg; a
  - Mae'r cynigion hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y gwahanol swyddogaethau hyn yn cydweithio er mwyn hybu'r Gymraeg a gweithio tuag at weledigaeth *Cymraeg 2050*.
- Lleihau biwrocratiaeth.
  - Mae'r cynigion hyn yn canolbwyntio ar symleiddio'r prosesau ynghylch gwneud a gosod Safonau'r Gymraeg, a chael gwared â'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm ag ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth cyrff â Safonau er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld unioni unrhyw ddiffyg yn gyflym.

Bydd llwyddiant Bil arfaethedig y Gymraeg yn cael ei fesur yn erbyn dangosyddion cyflawni *Cymraeg 2050* a nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na fydd* y polisi'n cael ei weithredu?**

Ymdrinnir â'r cynigion yn ein Papur Gwyn mewn 4 rhan.

Mae Rhan 1 a 2 yn arwain at gynnig y dylid sefydlu Comisiwn y Gymraeg fel y prif gorff sy'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â Safonau'r Gymraeg (y 'Safonau').

Mae Rhan 3 y papur yn ymdrin â diwygio'r system Safonau i sicrhau ei bod yn arwain at ddatblygu gallu cyrff i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, i sicrhau eglurdeb i siaradwyr Cymraeg ynghylch pa wasanaethau y mae rhaid i gyrff eu darparu yn Gymraeg, ac i weithio i gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny.

Yn Rhan 4, mae'r papur yn amlinellu ein cynigion i ddiddymu'r cyfyngiadau sydd yn y ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r setliad datganoli a oedd yn bod pan wnaed y Mesur. Mae cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynyddu'n

sylweddol ers gwneud y Mesur ac mae ein cynigion yn ceisio sicrhau bod ein deddfwriaeth arfaethedig yn ystwyth ac yn hyblyg.

I lywio'r broses o ddatblygu'n cynigion yn ein Papur Gwyn, gwnaed Cais am Dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 31 Ionawr 2017. Cafodd yr atebion a gawsom eu crynhoi mewn adroddiad sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?skip=1&lang=cy>

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gan yr ymatebwyr yn tynnu sylw at broblemau â'r trefniadau presennol rydym wedi gweithio i'w datrys yn ein Papur Gwyn.

Wrth ymateb i'n cais am dystiolaeth, codwyd y materion canlynol gan bobl a ymatebodd:

#### Hybu'r Gymraeg

- Mae cyrff yn rhoi gwerth sylweddol ar hybu'r Gymraeg, naill ai drwy ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu, neu drwy gefnogi rhwydweithiau o ymarferwyr i ddod â phobl at ei gilydd i rannu arfer da ac i weithio drwy anawsterau sydd ganddynt yn gyffredin o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Roedd rhai ymatebion yn crybwyll y cydbwysedd a gadwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fel yr oedd, wrth wneud ei waith fel rheoleiddiwr a'r prif sefydliad ar gyfer hybu'r Gymraeg. Wrth drafod rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o gyrff yn teimlo bod y Comisiynydd yn canolbwyntio'n fwy ar arfer swyddogaethau rheoleiddiol nag ar swyddogaethau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Mewn rhai achosion, nodir fod yr adnoddau sy'n cael eu neilltuo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau yn cael effaith ar allu cyrff i gyflawni gwaith i hybu'r Gymraeg yn weithredol.
- Dywedodd rhai ymatebwyr fod canfyddiad staff mewn cyrff sy'n cydymffurfio â Safonau bod anghydbwysedd o blaid rheoleiddio yn hytrach na hybu yn tanseilio agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg.
- Ni roddwyd digon o sylw i weithio i gynyddu'r defnydd o wasanaethau y mae'n ofynnol i gyrff eu darparu yn Gymraeg.

#### Hawliau i wasanaethau Cymraeg

- Mae croeso cyffredinol i'r Safonau a'r fordd y maent yn codi proffil y Gymraeg o fewn sefydliadau a chael effaith raddol ar gwmpawd, ansawdd a cysondeb gwasanaethau yn Gymraeg;
- Dywedodd amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus o ranbarthau ledled Cymru fod y broses o wneud a gosod Safonau ar gyrff yn rhy hir, yn rhy fiwrocraidd ac yn llyncu adnoddau, o'u profiad nhw.
- Nid oes cysondeb rhwng y Safonau sy'n cael eu gosod ar gyrff tebyg yn yr un ardal ddaearyddol.
- Mae cyrff o'r farn fod cymhlethdod y system Safonau bresennol yn golygu nad yw'n glir i'r cyhoedd pa hawliau sydd ganddynt ynghylch cael

gwasanaethau yn Gymraeg.

- Mae canfyddiad fod y broses gwyno a gorfodi sy'n cefnogi'r gwaith o sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau yn fiwrocraidd, yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser. Roedd y cyrff hefyd yn nodi y gall y prosesau hyn weithio yn erbyn yr ewyllys da tuag at y Gymraeg yn eu sefydliadau, a'u bod yn cymryd gormod o amser i ddarparu ateb ystyrlon i rywun nad yw'n credu bod ei hawl i gael gwasanaethau yn Gymraeg wedi cael ei bodloni.
- Mae'r dull presennol o dan y system bresennol o gynnal ymchwiliadau ffurfiol i achlysuron pan honnir fod Safonau wedi'u torri yn gallu gweithio yn erbyn ymdrechion i annog staff sefydliadau i ddefnyddio'u Gymraeg oherwydd bod arnynt ofn gwneud rhywbeth o'i le a chael eu rhwydo yn y system reoleiddiol.

Mae'n rhan hanfodol o strategaeth *Cymraeg 2050* na allwn wireddu'n gweledigaeth heb sicrhau bod pawb yn rhan o'r daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, mae gwireddu'r targedau uchelgeisiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu iddi'i hun i gynyddu nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg yn dibynnu ar sicrhau bod ewyllys da tuag at y Gymraeg a negeseuon cadarnhaol amdani yn cael eu cyfathrebu i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i'w hargyhoeddi nhw i ddewis darpariaeth Gymraeg i'w plant.

Fodd bynnag, nid darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar, ac addysg statudol, bellach ac uwch yw'r unig sectorau lle mae angen hybu negeseuon cadarnhaol er mwyn cyflawni *Cymraeg 2050*. Bydd yr un mor bwysig i sicrhau bod pobl ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn cael eu hannog a bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio unrhyw Gymraeg sydd ganddynt, i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddyn nhw, ac i sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r weledigaeth a nodwyd yn *Cymraeg 2050*.

Rydym yn credu y bydd ein cynigion yn ein Papur Gwyn yn adeiladu ar y system bresennol a'i gwella ac y byddant yn darparu'r fframwaith cywir ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### **A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?**

Mae ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050*, yn pennu newidiadau pellgyrhaeddol y bydd eu hangen i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ymhlith y newidiadau roedd y canlynol:

*'Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith'*

Mae'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd sy'n amlinellu sut y byddwn yn cyflawni pum mlynedd gyntaf *Cymraeg 2050* yn ymrwmo i gyflawni'r canlynol erbyn 2021:

*'Adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011â'r bwriad o sicrhau trefniant effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.'*

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu ein cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg a fydd yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni *Cymraeg 2050*.

Mae'r cynigion yn ein Papur Gwyn ar gyfer hybu'r Gymraeg, a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau tuag at y Gymraeg hefyd yn cyfrannu at gyflawni *Cymraeg 2050*, yn enwedig yng nghyd-destun Thema 2 sy'n ymwneud â chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn rhoi manylion yr effeithiau hyn yn yr asesiad hwn.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Nodwyd y bydd ein cynigion yn cael y prif effeithiau canlynol ar y Gymraeg:

- cydgysylltu gwaith yn lleol ac yn genedlaethol i gyflawni *Cymraeg 2050* i sicrhau bod yr arian rydym yn ei wario ar hybu'r Gymraeg yn cael yr effaith fwyaf bosibl o ran cyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- eglurdeb wrth hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod canolbwynt y gall pobl, busnesau, cyrff etc droi ato am help a chynngor ynghylch y Gymraeg;
- cefnogi cyrff sydd â dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a'u galluogi nhw i gydymffurfio â'r Safonau;
- gwelliannau yn y modd y cynllunnir gwasanaethau a gweithluoedd i sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a bod help ymarferol ar gael i gyrff o ran cynllunio ieithyddol effeithiol;
- gwell cefnogaeth i gyrff sy'n gweithredu o dan y Safonau weithio gyda'i gilydd mewn rhwydweithiau o bartneriaid i rannu arfer da o ran hybu'r Gymraeg yn lleol ac o fewn eu sefydliadau;
- cyfran fwy o'r arian a ddyrannwyd i'r Comisiwn arfaethedig i gael ei wario ar weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni *Cymraeg 2050* drwy leihau'r fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r system bresennol o wneud, gosod a gorfodi Safonau.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Mae'r Gymraeg yn ffactor hollbwysig ym mhob maes polisi ar draws y llywodraeth. Mae anghenion siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yn rhan annatod o *Cymraeg 2050* ym mhob sector, o addysg i dechnoleg, o wasanaethau i gynllunio'r gweithlu. Wrth ei ddatblygu, bu *Cymraeg 2050* yn destun ymgynghori helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, i sicrhau bod y strategaeth yn bodloni anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ledled Cymru.

Wrth ddatblygu ein cynigion, cawsom ein llywio gan yr angen i sicrhau ein bod yn darparu'r fframwaith statudol mwyaf addas ar gyfer cefnogi'r gwaith (o ran hybu a hefyd o ran rheoleiddio) y bydd ei angen i gyflawni *Cymraeg 2050*.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn eglur fod angen i'r genedl gyfan deimlo perchnogaeth ohoni er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod pawb sy'n byw ac/neu yn gweithio yng Nghymru yn rhanddeiliaid. Rydym yn benderfynol o estyn allan y tu hwnt i'r rhai sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg nawr er mwyn clywed barn cynifer o bobl, cyrff, busnesau a

chymunedau â phosibl, p'un a ydyn nhw'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd neu beidio. Fodd bynnag, byddwn yn mynd ati i gael barn siaradwyr Cymraeg, grwpiau buddiant Cymraeg a chyrrff sy'n darparu rhaglenni gwaith i hybu defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru, wrth gwrs.

Rydym wedi datblygu cynllun i lywio ein gwaith o drafod ein cynigion yn y Papur Gwyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Trafodir nodau ac amcanion y cynllun yn yr asesiad hwn, o dan y pennawd '*Trafod y cynigion yn ein Papur Gwyn*'.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod.**

(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)

AMHERTHNASOL

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, nodi rhestrau o randdeiliaid neu restrau ar gyfer ymgynghori, angen cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor?

Trafod y cynigion yn ein Papur Gwyn

Rydym yn gofyn am farn ar ein cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Bapur Gwyn. Bydd ymatebion i'n hymgyngoriad yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried barn rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth a'i chynnwys.

Rydym wedi paratoi cynllun cyfathrebu fel rhan o'n hymgyngoriad i amlinellu sut y byddwn yn sicrhau bod pobl a chyrrff yn trafod ein cynigion. Mae ein cynllun cyfathrebu'n nodi cynulleidfa darged y Papur Gwyn ynghyd â chamau y byddwn yn eu cymryd i annog y rhai sydd â buddiant i fynegi eu barn ynghylch unrhyw ddeddfwriaeth newydd bosibl. Mae ein cynllun yn nodi pwysigrwydd sicrhau ein bod yn dod i gysylltiad â siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a phobl ddi-Gymraeg. Rydym wedi ystyried bod hyn yn bwysig oherwydd y nod o sicrhau ewyllys da a theimlad o berchnogaeth tuag at y Gymraeg, a nodwyd yn ein gweledigaeth yn *Cymraeg 2050*.

Wrth ddatblygu ein cynllun cyfathrebu, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau ein bod yn mynd ati i annog y sectorau hynny o'r boblogaeth sy'n cael eu hystyried yn 'anodd eu cyrraedd' a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymateb drwy yrru negeseuon e-bost pwrpasol at grwpiau sy'n cynrychioli pobl â'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar ein Papur Gwyn, byddwn yn annog pobl i ymateb drwy wneud y canlynol:

- Bydd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn arwain cyfres o ddigwyddiadau a fydd yn agored i'r cyhoedd, cyrrff sy'n darparu gweithgareddau i hybu'r Gymraeg, grwpiau buddiant, cyrrff sydd o dan y Safonau, busnesau, cyrrff o'r trydydd sector a phob parti arall sydd â buddiant. Bydd o leiaf un o'r digwyddiadau hyn wedi'i anelu at bobl ifanc yn benodol. Amcan y digwyddiadau hyn fydd sicrhau eglurdeb ynghylch ein cynigion a

darparu cyfle i bobl ledled Cymru ddweud eu dweud;

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sy'n cael cyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru i fynd ati i hybu'r Gymraeg i sicrhau bod eu cwsmeriaid a defnyddwyr eu gwasanaethau yn cael gwybod am ein hymgyngoriad;
- Mae'r Papur Gwyn yn fanwl ac yn dechnegol mewn llefydd. Mae fersiwn symlach o'r ddogfen ymgynghori wedi cael ei pharatoi i grynhoi'r cynigion yn ein Papur Gwyn. Ein bwriad yw y bydd y fersiwn hon o'r papur yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n haws i'w darllen er mwyn galluogi ac annog pobl i gymryd rhan yn ein hymgyngoriad;
- Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu holiadur ymgynghori ar-lein yn ogystal â'r copi caled traddodiadol o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad;
- Bydd sianeli cyfryngau cymdeithasol y Llywodraeth yn cael eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ymhlith rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth i gyd. Bydd rhain yn ein galluogi i dargedu gwahanol bobl ar draws amrywiaeth o grwpiau demograffig i'w hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad;
- Bydd digwyddiadau/gweithdai penodol yn cael eu cynnal gyda'r cyrff sy'n dod o dan system y Safonau lle bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n eu helpu ac yn gwella eu dealltwriaeth o'n cynigion ac yn darparu cyfle iddyn nhw roi eu barn;
- Rydym wedi paratoi rhestr o randdeiliaid, partneriaid a grwpiau buddiant y byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â nhw i ddwyn ein hymgyngoriad i'w sylw.

#### Gofynion data

Yn ein Papur Gwyn, rydym wedi cynnig cadw system Safonau'r Gymraeg fel y ffordd orau i sicrhau hawliau i bobl gael gwasanaethau yn Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod prinder data meintiol ar hyn o bryd ynghylch faint o ddefnydd a wneir o wasanaethau yn y Gymraeg. Wrth inni ddatblygu ein cynigion ymhellach, bydd y data hyn yn chwarae rhan bwysig o ran dangos effaith ein deddfwriaeth a'n polisïau. Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill ar sail dull 'data agored' i gasglu a chyhoeddi'r data hyn.

Yn ogystal â chydabod y bylchau yn y data sydd ar gael ynghylch faint o ddefnydd a wneir o wasanaethau yn Gymraeg, rydym hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd casglu data ynghylch sgiliau'r gweithlu (er enghraifft, yn ôl daearyddiaeth, sector neu proffesiwn) a sgiliau'r rhai sydd newydd ymuno â'r gweithlu. Mae'n ofynnol i lawer o gyrff sydd o dan y Safonau ar hyn o bryd gasglu peth o'r data hyn fel rhan o'r safonau cadw cofnodion y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw. Wrth inni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn gweithio i gasglu'r data hyn mewn ffordd fwy systematig i gryfhau'r dystiolaeth sy'n cefnogi ein cynigion.

#### Bwrdd Cynllunio – Rhaglen i hybu'r Gymraeg

Yn dilyn dyrannu £5 miliwn yn ychwanegol yng Nghyllideb 2017/18 i gefnogi y Gymraeg, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Cynllunio, yn cynnwys aelodau annibynnol a benodwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Swyddogaeth y Bwrdd yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch rhaglen o waith i hybu'r Gymraeg gan ddefnyddio £2 miliwn o gyllid ychwanegol a neilltuwyd i'r Gymraeg ar gyfer 2017 - 18. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi'r dasg i'r Bwrdd o ddatblygu cynllun strategol 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg. Ein bwriad yw y bydd y cynllun hwn yn gallu llywio'r gwaith wrth inni bontio rhwng y trefniadau



presennol a chynigion terfynol Bil y Gymraeg arfaethedig.

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac arfarniad costau a manteision

Ochr yn ochr â'r broses ymgynghori ynghylch ein Papur Gwyn, rydym yn bwriadu comisiynu ymchwil allanol annibynnol i grynhoi gwybodaeth am yr effaith a'r costau sydd ynghlwm â'r system bresennol. Pan fyddwn wedi llunio cynigion pendant ynghylch polisi unrhyw ddeddfwriaeth newydd bosibl, byddwn yn defnyddio casgliadau ein hymchwil i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiad llawn o'r costau a'r manteision. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth i ni ynghylch yr effaith y byddai ein cynigion yn ei chael. Byddwn yn cyhoeddi ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol ochr yn ochr â'n Bil ar gyfer y Gymraeg.

## **CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU**

### **Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

#### **Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith manwl**

#### **Effeithiau cadarnhaol:**

Rhennir y cynigion yn y Papur Gwyn yn 4 rhan bendant:

#### **1 - Hybu'r Gymraeg**

Er mwyn ailedrych ar y cydbwysedd rhwng hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau tuag at y Gymraeg, mae'r Papur Gwyn yn cynnig y dylai un corff fod yn gyfrifol am y ddau llynyn o'r gwaith. Rydym o'r farn y bydd ein cynnig yn cael y prif effeithiau cadarnhaol a ganlyn ar y Gymraeg:

- O ganlyniad i'w swyddogaethau a'i lifoedd gwaith eang, rydym yn bwriadu i'r corff newydd sefydlu ei hun fel y corff sy'n arwain o ran hybu'r Gymraeg drwy ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu, fel canolbwynt ar gyfer arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol ac fel 'siop un stop' ar gyfer y Gymraeg i'w gwneud yn haws i bobl, cyrff, busnesau a chymunedau ddatblygu'u defnydd o'r Gymraeg;
- Bydd ein cynnig yn ei gwneud yn amlwg i bobl pwy sy'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau tuag at y Gymraeg;
- Bydd y corff yn gallu meithrin cydberthnasau ar draws Cymru a dod ag ymarferwyr, grwpiau, busnesau a chyrrff at ei gilydd i nodi cyfleoedd, ac i gynnal prosiectau arloesol a chydweithredol sy'n cyfrannu at gyflawni *Cymraeg 2050*;
- Bydd y corff yn gallu manteisio i'r eithaf ar y synergedd rhwng ei waith yn hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'u dyletswyddau tuag at y Gymraeg drwy weithio gyda chyrrff a mynd i'r afael â phroblemau sydd gan wahanol gyrff o dan system y Safonau yn gyffredin â'i gilydd;
- Sicrhau bod cymaint â phosibl o'r arian rydym yn ei fuddsoddi yn y Gymraeg yn darparu prosiectau a mentrau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflawni *Cymraeg 2050* drwy gael un corff, a sicrhau felly bod gwaith i hybu'r Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol wedi'i gydgyssylltu;

- Meithrin ewyllys da tuag at y Gymraeg ymhlith pawb.

## 2 - Llywodraethiant ac atebolrwydd

Mae ein Papur Gwyn wedi cynnig creu Comisiwn y Gymraeg i weithio i hybu'r Gymraeg ac i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â Safonau, fel y nodwyd yn Adran 1 y papur. Rydym o'r farn fod gan y cynnig hwn y prif effeithiau cadarnhaol a ganlyn ar y Gymraeg:

- Bydd ein cynnig i'w gwneud yn orfodol i'r Comisiwn lunio cynllun strategol yn dangos sut y bydd y corff yn cyfrannu at gyflawni *Cymraeg 2050* a'i gynllun gweithredu yn sicrhau bod gwaith y Comisiwn, ac unrhyw gyrff neu fentrau y bydd yn penderfynu eu hariannu, yn helpu i wireddu ein gweledigaeth am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Ein bwriad ar gyfer y Comisiwn yw y bydd gan ei aelodau amrywiaeth eang o sgiliau, profiad a gwybodaeth i sicrhau bod y Comisiwn yn ddigon gwybodus ac yn cael digon o arweiniad wrth ei waith i ymdrin â'r cyfleoedd a'r heriau a fydd o bosibl yn wynebu'r Gymraeg yn ystod oes strategaeth *Cymraeg 2050*.
- Bydd y penrhyddid a roddir i'r Comisiwn arfaethedig wrth arfer ei swyddogaethau o fonitro a gorfodi dyletswyddau ynghylch y Gymraeg yn sicrhau annibyniaeth y corff yn ei rôl fel rheoleiddiwr y Safonau. Mae hyn yn sicrhau bod uniondeb y system sy'n darparu hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn parhau. Ar yr un pryd, mae'r ffaith fod y corff yn atebol i Lywodraeth Cymru am ei benderfyniadau o ran hybu'r Gymraeg yn sicrhau atebolrwydd democrataidd y corff a'i benderfyniadau.

## 3 - Safonau'r Gymraeg

Mewn ymateb i faterion a godwyd gan gyrff ynglŷn â'r system bresennol ac er mwyn ei gwella, mae'r papur yn cynnig y prif ddiwygiadau a ganlyn i system y Safonau:

1. Bod Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am osod Safonau ar gyrff a bod y Comisiwn arfaethedig yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau.
2. Diwygio'r gweithdrefnau sydd ynghlwm â gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau i sicrhau bod y pwyslais ar gywiro diffygion ac ar unioni pethau ar ran yr achwynwyr.
3. Dylid defnyddio Safonau i sicrhau bod cyrff yn datblygu'u gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy gynnal adolygiadau rheolaidd i wneud yn sicr ei bod yn ofynnol i gyrff fodloni Safon uwch mewn achosion pan fo hynny o fewn eu gallu.
4. Dylai darparu fframwaith statudol i gyrff ddatblygu eu capasiti a'u darpariaeth yn y Gymraeg drwy'r Dyletswyddau Cynllunio leithyddol arfaethedig wella'r ffordd y mae cyrff o dan y Safonau yn cynllunio o ran y Gymraeg.

Rydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn cael yr effeithiau cadarnhaol a ganlyn ar y Gymraeg:

- Drwy gyfuno rhai o'r safonau a sicrhau eu bod yn ymdrin â gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol i'r cyhoedd, byddwn yn sicrhau bod mwy o eglurdeb i'r cyhoedd ynghylch pa gyrff sy'n gorfod defnyddio'r Gymraeg o dan y Safonau.

- Wrth weithio i sicrhau bod mwy o eglurdeb a thryloywder yn y broses o wneud a gosod Safonau ar gyrff, rydym o'r farn y byddwn yn cyfrannu at sicrhau bod y Comisiwn arfaethedig, Llywodraeth Cymru a'r gyrff a ddaw o dan y Safonau yn defnyddio'u hadnoddau mewn modd mor effeithiol â phosibl i wneud yn sicr ein bod yn buddsoddi cymaint â phosibl mewn prosiectau sy'n helpu i wireddu *Cymraeg 2050*.
- Bydd ein cynigion i ddiwygio'r weithdrefn gwyno yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael unioni problemau yn gyflym ac mewn da bryd gan osgoi yr angen i gynnal ymchwiliad hirfaith a chostus fel sy'n digwydd o dan y trefniadau presennol. Bydd hyn yn cadw gweithdrefnau gorfodi arfaethedig y Comisiwn ar gyfer achosion difrifol o dorri Safonau.
- Drwy ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu'r Safonau y mae'n rhaid i gyrff gydymffurfio â nhw yn rheolaidd, byddwn yn sicrhau bod system y Safonau'n gyfrwng i ysgogi'r gyrff sydd o dan y Safonau i wella eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Bydd y dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer cynllunio ieithyddol ardal, poblogaeth ac ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus. Ein bwriad yw y bydd gyrff yn cael eu helpu i wneud y gwaith hwn gan arbenigedd aelodau'r Comisiwn arfaethedig ym maes cynllunio ieithyddol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn arfaethedig i lunio ymyriadau i gynorthwyo'r gyrff.

#### 4 - Cwmpas y gyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

Mae'r adran hon o'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion i ddiddymu'r cyfyngiadau a roddir ar Lywodraeth Cymru yn y Mesur o ran y mathau o gyrff y caiff Llywodraeth Cymru wneud Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar eu cyfer. Mae'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchu terfynau cymhwysedd y Cynulliad ar yr adeg y gwnaed y Mesur. Mae ein cynigion am fanteisio ar gymhwysedd newydd, ehangach y Cynulliad a diddymu'r cyfyngiadau hynny.

Yn yr adran hon, rydym wedi nodi'r effeithiau a ganlyn sy'n deillio o'n cynlluniau:

- Bydd sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru bŵer i wneud Rheoliadau sy'n pennu Safonau ar gyfer unrhyw gorff yn gwneud y broses o ddod ag unrhyw gyrff newydd o dan system y Safonau yn haws ac yn llai biwrocraidd. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ddigon hyblyg ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau a fydd o bosibl yn wynebu'r Gymraeg yn ystod oes strategaeth *Cymraeg 2050* drwy osod dyletswyddau ar gyrff nad ydynt o fewn cwmpas y Mesur ar hyn o bryd.

#### **Effeithiau negyddol:**

Mewn rhai achosion, mae Safonau ar hyn o bryd yn caniatáu i gyrff asesu'r galw am wasanaeth penodol cyn iddi fod yn ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Rydym yn cynnig parhau â'r arfer hwn er mwyn sicrhau mai'r gwasanaethau y mae'n ofynnol i gyrff eu darparu yw'r rhai y mae pobl eu hangen ac yn eu defnyddio.

Mae *Cymraeg 2050* yn gofyn am gynnydd sylweddol a chyflym i sicrhau ein bod yn

gwireddu ein hymrwymiad o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Nid yw ein gweledigaeth yn bodoli mewn gwagle. Mae parhad y cyfnod o gynt a'r ansicrwydd sy'n deillio o benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn golygu bod yn rhaid i ni sicrhau bod yr arian rydym yn ei fuddsoddi yn y Gymraeg yn cael yr effaith fwyaf bosibl o ran darparu cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, yn enwedig yng nghymunedau cefn gwlad. Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig hwn yn ein cais am dystiolaeth.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod effaith gadarnhaol cyfeirio adnoddau i weithgareddau sy'n cefnogi cyflawni *Cymraeg 2050* yn uniongyrchol yn ddigon gwerthfawr i beri inni dderbyn unrhyw effeithiau negyddol ar ddarpariaeth yn Gymraeg a fydd yn codi yn sgil ein cynnig i sicrhau mai'r gwasanaethau rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff eu darparu yw'r rhai sydd eu hangen ac a fydd yn cael eu defnyddio.

### **Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Mae rhestr o brif effeithiau ein cynigion ar gyfleoedd i hybu'r Gymraeg i'w gweld yn yr adran ar effeithiau cadarnhaol yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith uchod.

### **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

- *Cymraeg 2050*  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>);
- *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*  
([https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation\\_doc\\_files/170110-consultation-responses-cy.pdf](https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170110-consultation-responses-cy.pdf));
- *Galwad am dystiolaeth: Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg*  
<http://gov.wales/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?skip=1&lang=cy>

Arolygon, ymchwil ac adroddiadau

- *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15*  
(<http://gov.wales/docs/statistics/2016/160301-welsh-language-use-in-wales-2013-15-cy.pdf>);
- *Sefyllfa'r iaith Gymraeg 2012-2015*  
(<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mluned%20-%205-year%20Report.pdf>);
- *Y Gymraeg yn y fasedd siopa: agweddau cwsmeriaid at ddefnydd o'r Gymraeg gan archfarchnadoedd*  
(<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Archfarchnadoedd%20Cymraeg.pdf>);
- *Adroddiadau blynyddol iaith fyw: iaith byw*  
(<http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/welsh-language-strategy-annual-report/?lang=cy>);
- *Adolygiad statudol i wasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr yng Nghymru*  
(<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Arolwg%20statudol%20banciau.pdf>);
- *Amser gosod y safon: Portread o brofiadau pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2015-16*  
(<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/>

[Adroddiad%20Sicrwydd%20-%20Rhyngweithiol.pdf](#)).

Adroddiadau Seneddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan

- *Gwireddu'r Uchelgais: Ymchwilliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru* (<http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11046/cr-ld11046-w.pdf>);
- *The Regulatory State: Ensuring its Accountability, House of Lords Select Committee on the Constitution* (<https://www.publications.parliament.uk/pa/ld200304/ldselect/ldconst/68/68.pdf>)

*Gwaith academaidd*

- *The Welsh Language Commisisoner in Context*, Diarmait Mac Giolla Christ, Gwasg Prifysgol Cymru, 2016
- *Minority Language Promotion, Protection and Regulation: The Mask of Piety*, Colin H. Williams, Palgrave, 2013

**Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?**

Cadarnhaol:   
Negyddol:   
Niwtral:   
Anhysbys:

**Penderfyniad yn dilyn yr Aseiad**

1. Dim newid sylweddol
2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau
3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru
4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno

**Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:**

**Sut y byddwch chi'n ymateb i'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

AMHERTHNASOL

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus am y Papur Gwyn yn rhedeg o 9 Awst hyd at 31 Hydref 2017. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i lywio ein camau nesaf ac i benderfynu ar yr angen am ddeddfwriaeth a'i chynnwys.

Yn yr asesiad hwn, rydym wedi amlinellu'r gwaith y bwriadwn ei wneud i annog a hwyluso'r ffordd i bobl gymryd rhan yn ein hymgyngoriad o dan y pennawd *Trafod y cynigion yn ein Papur Gwyn*.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym wedi gofyn y cwestiynau a nodwyd yn y Papur Gwyn i randdeiliaid.

<b>CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI; PARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO</b>
<b>Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd mewn perthynas â'r Gymraeg?</b>
<b>Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?</b>
<b>Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol.</b>
<b>Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus yn deillio o werthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg</b>

#### 4. Datganiad

<b>Arweinydd polisi:</b>
<b>*Dileer fel y bo'n briodol:</b>
<b>Mae'r polisi hwn / <del>Nid yw'r polisi hwn</del> yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Lle canfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.</b>
Enw:
Adran:
Dyddiad(au):
Llofnod:

Dyddiadau adolygu:

**ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu